EISTEDDFOD
Llanfihangel-ar-Arth a'r Plwyf

2/3/2024
11:00am

NEUADD YR YSGOL
Llanfihangel-ar-Arth

LLYWYDDION:
Mr & Mrs Ken Howells, Gwarallt, Llanllwni

MYNEDIAD AR Y DYDD / *ENTRANCE FEE ON THE DAY:*

Oedolion/*Adults* £4, Plant/*Children* £1, Aelodau côr neu barti/*Choir or party members* £1

RHAGLEN Y DYDD

EISTEDDFOD LLANFIHANGEL-AR-ARTH A'R PLWYF 02-03-24

Bydd cyfeilydd swyddogol ar gael ond gall pob cystadleuydd ddod â chyfeilydd ei hun.

Rhaid i bob cystadleuydd sydd angen y cyfeilydd swyddogol ar gyfer y Gân Fodern neu Gân allan o Sioe Gerdd neu Ffilm, anfon copi o'r gerddoriaeth ati wythnos o flaen llaw.

BEIRNIAID / *ADJUDICATORS*

Cerdd: Lowri Elen Jones, Llanbedr Pont Steffan

Llefaru a Llenyddiaeth: Ivoreen Williams, Rhydaman

Celf: Heulwen Howells

CYFEILYDD SWYDDOGOL / *OFFICIAL ACCOMPANIST*

Lynne James, Haulfryn, Adpar, Castell Newydd Emlyn SA38 9PX

01239 710114

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD

Cadeirydd*:* Calfin Griffiths

Is-Gadeirydd*:* Esta Jones

Cyd-Ysgrifenyddion*:* Anita Evans a Margaret Bowen

Trysorydd*:* Sioned Bowen

Aelodau*:* Dawn Rees, Janet Jones, Eric Jones, Shân Phillips, Gwyneth Alban, Beth Davies, Morfydd Evans, Aileen Davies, Maria Evans, Linda Evans, Elinor Flello, Robert Jenkins, Martin Griffiths, Sioned Howells, Rhian Wyn

NI CHANIATEIR TYNNU UNRHYW LUNIAU NEU FIDEO YN YSTOD YR EISTEDDFOD

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

AMSERLEN Y DYDD / *TIMETABLE FOR THE DAY*

LLWYFAN 11:00am - Croeso gan y Cadeirydd

CYSTADLAETHAU CYFYNGEDIG (i blant Ysgolion Cae'r Felin, Bro Teifi, Llanllwni a Thalgarreg, ac aelodau Ysgolion Sul y Plwyf o oedran ysgol gynradd)

	1af	2il	3ydd
1. Unawd Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
2. Llefaru Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
3. Unawd Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
4. Llefaru Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
5. Unawd Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
6. Llefaru Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
7. Unawd Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
8. Llefaru Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
9. Canu Emyn	**£15**	**£10**	**£5**
Cyflwynir Gwobr Goffa Freddy Brooker i'r enillydd			
10. Parti Canu dan 12 oed (hyd at 12 llais)	**£30**	**£20**	
Cyflwynir Cwpan er cof am y diweddar Ifor Rhys i'r parti buddugol			

Cyflwynir Cwpan Her er cof am y diweddar Mr a Mrs Hughes, gynt o Brownhill, Llanfihangel-ar-arth i'r perfformiwr mwyaf addawol yn yr adran gyfyngedig

CYSTADLAETHAU AGORED

Gobeithir dechrau'r adran agored am 2:00pm

(Gweler rheol 2 os gwelwch yn dda)	**1af**	**2il**	**3ydd**
11. Unawd Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
12. Llefaru Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
13. Unawd Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
14. Llefaru Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
15. Unawd Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
16. Llefaru Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
17. Unawd Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
18. Llefaru Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
19. Deuawd - oed ysgol gynradd	**£20**	**£15**	**£10**
20. Unawd Offerynnol - oed ysgol gynradd	**£15**	**£10**	**£5**
Rhoddir gwobr ariannol i'r gystadleuaeth gan Mrs Valerie Davies.			
Cyflwynir Tarian Her Mrs Valerie Davies, Pont-Tyweli, i'r buddugol			
21. Alaw Werin - oed ysgol gynradd	**£15**	**£10**	**£5**
22. Unawd Cerdd Dant - oed ysgol gynradd	**£15**	**£10**	**£5**

4:00pm CYFLWYNO'R LLYWYDDION

	1af	2il	3ydd
23. Llefaru Blwyddyn 7-9	**£20**	**£15**	**£10**
24. Unawd Blwyddyn 7-9	**£20**	**£15**	**£10**
25. Llefaru Blwyddyn 10-13	**£25**	**£20**	**£15**
26. Unawd Blwyddyn 10-13	**£25**	**£20**	**£15**
27. Unawd Offerynnol - oed ysgol uwchradd *Rhoddir gwobr ariannol i'r gystadleuaeth gan Mrs Valerie Davies a theulu Maesbwlch.* *Cyflwynir Cwpan Her Teulu Maesbwlch i'r enillydd*	**£25**	**£20**	**£15**
28. Alaw Werin - agored	**£40**	**£30**	**£20**
29. SGEN TI DALENT? Dros 16 oed ***(Gweler amod 11)*** *Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i unigolion neu grwpiau. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy: ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, chwarae offeryn, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau - UNRHYW BETH fydd yn diddanu'r gynulleidfa. (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio props/offer/offerynnau cerdd a.y.b)* *£50 yn rhoddedig gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru*	**£25**	**£15**	**£10**
30. Unawd Cerdd Dant - agored	**£40**	**£30**	**£20**
31. Cystadleuaeth Perfformio MEWN CYMERIAD: 16-25 oed *Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol cwmni "Mewn Cymeriad". Perfformiad hyd at 5 munud. Dewis o 2 sgript - Owain Glyndŵr neu Cranogwen. Caniateir gwisgoedd a props.* *Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Medi 2023 a diwedd Mai 2024 yn rhoi hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Sgriptiau ac amodau llawn ar www.steddfota.cymru*	**£30**	**£20**	**£15**
32. Deuawd - agored	**£50**	**£30**	**£20**
33. Parti Canu / Côr - agored (hyd at 20 aelod) *Cyflwynir Cwpan er cof am Ifor Rees i'r côr buddugol*	**£100**	**£75**	**£50**
34. Cân Fodern neu Gân allan o unrhyw Sioe Gerdd neu Ffilm *(Rhaid i'r cyfeilydd dderbyn copi o'r gerddoriaeth wythnos o flaen llaw)*	**£40**	**£30**	**£20**
35. Darllen o'r Ysgrythur ar y pryd - agored *(Bydd y beirniad llefaru yn darparu'r darlleniad ar y diwrnod)*	**£40**	**£30**	**£20**
36. Unawd 19-25	**£30 a Chwpan Her**	**£20**	**£15**
37. Llefaru 19-25 *Cyflwynir Cwpan Her i'r enillydd yn rhoddedig gan Maria Evans*	**£30 a Chwpan Her**	**£20**	**£15**

7:00pm SEREMONI'R CADEIRIO a THLWS YR IFANC

38. CYSTADLEUAETH GORAWL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU **(i'w chynnal yn syth ar ôl seremoni'r Cadeirio)** *Parti neu gôr, unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymru. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin gan gyfansoddwr o Gymru. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Medi 2023 a diwedd Mai 2024 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024.* ***Amodau llawn ar www.steddfota.cymru***	£200	£125	£75

	1af	2il	3ydd
39. Canu Emyn - agored	**£40**	**£30**	**£20**
Cyflwynir Cwpan Coffa'r Parch Noel James i'r enillydd			
40. Her Adrodd dros 25 - agored	**£100 a chwpan**	**£75**	**£50**
41. Her Unawd dros 25 - agored	**£100 a chwpan**	**£75**	**£50**

Cyflwynir Cwpan Her Western Power i'r perfformiwr mwyaf addawol yn y Sesiwn Agored

LLENYDDIAETH AGORED *DYDDIAD CAU: 16/02/24*

Rhoddir cadair i enillydd y darn gorau o lenyddiaeth (gan gynnwys cystadleuaeth Tlws yr Ifanc)
DISGWYLIR I'R LLENOR BUDDUGOL FOD YN BRESENNOL - Gweler rheol 4
Rhoddir beirniadaeth ysgrifenedig os yw'r ymgeisydd yn amgáu amlen wedi'i chyfeirio â stamp arni gyda'r cais

42. Telyneg mewn mydr ac odl heb fod dros 24 o linellau: "Afon Teifi"	**£10**
43. Cân Ysgafn heb fod dros 30 o linellau: "Y Parti"	**£10**
44. Cerdd Rydd heb fod dros 30 o linellau: "Storm"	**£10**
45. Englyn: "Ffoi"	**£10**
46. Limrig sy'n cynnwys y llinell - "Roedd Siani yn llefen fel babi"	**£10**
47. Brawddeg ar y gair PRIODAS	**£10**
48. Erthygl addas ar gyfer Papur Bro	**£10**
49. Stori Fer heb fod dros 2,000 o eiriau: "Diwrnod i'r Brenin"	**£10**

Rhoddir Cwpan Coffa Gwilym Walters i'r darn gorau o Ryddiaith

50. Darn hyd at 200 o eiriau i ddysgwyr: "Gwyliau"	**Cwpan Her**
Written piece up to 200 words for Welsh learners: "Holidays"	**a £10**

TLWS YR IFANC:

DISGWYLIR I'R LLENOR BUDDUGOL FOD YN BRESENNOL - Gweler rheol 4	**Tlws a £75**	**£50**	**£25**
51. Dan 25 oed: Dau ddarn o lenyddiaeth mewn unrhyw ffurf (e.e cerdd, stori, ymson, portread, deialog ac ati), hyd at 2,000 o eiriau.			

Bydd gofyn i'r beirniad argymell hyd at 3 darn o waith haeddiannol (gan gynnwys yr enillydd) i'w gynnig i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ar gyfer cystadleuaeth Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Rhoddir £200 i enillydd y gystadleuaeth honno.

LLENYDDIAETH ADRAN Y PLANT *DYDDIAD CAU: 16/02/24*

52. Meithrin a Derbyn: Llun a brawddeg neu ddwy - Hunanddewisiad	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
53. Bl. 1 a 2: Stori - Hunanddewisiad	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
54. Bl. 3 a 4: Stori - Hunanddewisiad	**£15**	**£10**	**£5**
55. Bl. 5 a 6: Stori - Hunanddewisiad	**£15**	**£10**	**£5**
56. Bl. 7-9: Rhyddiaith - Hunanddewisiad	**£20**	**£15**	**£10**
57. Bl. 10-13: Rhyddiaith - Hunanddewisiad	**£20**	**£15**	**£10**

Rhoddir tarian her gan Deulu Gwenllan, Llanfihangel am y darn gorau o lenyddiaeth yn Adran y Plant yn y cystadlaethau uchod

LLAWYSGRIFEN

Dim addurniadau ar y papur - llawysgrifen yn unig

	1af	2il	3ydd
58. Lan i Fl. 2: Pennill cyntaf "Esgidiau Newydd" gan Anni Llŷn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
59. Bl. 3 a 4: Dau bennill cyntaf "P'un ddaeth gynta?" gan T.Llew Jones	**£15**	**£10**	**£5**
60. Bl. 5 a 6: "Y Ras" gan Mari George	**£15**	**£10**	**£5**
61. Bl. 7-9: "Y Filltir Sgwâr" gan Elinor Wyn Reynolds	**£20**	**£15**	**£10**

Am ragor o fanylion a chopi o'r darnau gosod, cysylltwch â'r cyd-ysgrifennydd:
Margaret Bowen, 01559 362215, wernmacwydd@btinternet.com

CELF / *ART*

Ni ddylai unrhyw ymgais yn yr adran hon fod yn fwy na maint A3

62. Meithrin a Derbyn: "Egni"	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
63. Bl. 1 a 2: "Egni"	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
64. Bl. 3 a 4: "Egni"	**£15**	**£10**	**£5**
65. Bl. 5 a 6: "Egni"	**£15**	**£10**	**£5**

Rhoddir cwpan her i'r gwaith gorau yn y cystadlaethau uchod gan Mrs Griffiths, Y Felin, Gwyddgrug, er cof am ei merch Heledd

66. Celf Agored: Hunanddewisiad ar unrhyw ffurf	**£25**	**£20**	**£15**

**** BEIRNIADU CELF A LLAWYSGRIFEN - 21/02/24 ****

****

RHEOLAU AC AMODAU

1. Does dim testunau swyddogol ar gyfer yr Adrannau Cerdd a Llefaru. Gall cystadleuwyr ddewis eu testun eu hunain.

2. Ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn mwy nag un gystadleuaeth.

3. Dylai pob cais yn yr Adran Lenyddiaeth gael ei anfon at y Cyd-ysgrifennydd: Margaret Bowen, Wernmacwydd, Llanfihangel-ar-arth, Pencader, Sir Gâr SA39 9LB, erbyn 16/02/24. Rhaid i bob cais ddangos teitl y gystadleuaeth a'r ffugenw. Gyda phob cais rhaid cynnwys amlen dan sêl gyda theitl y gystadleuaeth, y ffugenw, enw, cyfeiriad, rhif ffôn a/neu e-bost y cystadleuydd wedi'u llenwi oddi mewn. Rhowch y ffugenw a theitl y gystadleuaeth ar yr amlen. Gall ceisiadau gael eu hanfon hefyd at **llaa@steddfota.org** ond rhaid cynnwys y manylion uchod.

4. Disgwylir i'r bardd neu lenor buddugol yng nghystadlaethau'r Gadair a Thlws yr Ifanc fod yn bresennol ac mae hawl gan y Pwyllgor i atal y wobr os nad yw'r enillydd yn bresennol yn yr Eisteddfod.

5. Dylai pob cais yn yr adrannau Celf a Llawysgrifen gael ei gymryd i Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel-ar-arth, rhwng 6 a 7yh ar **21/02/24** gyda'r enw, blwyddyn ysgol a'r ysgol neu fanylion cyswllt ar y cefn.

6. Dylai pob cais yn yr adrannau Cerdd, Llefaru, Llenyddiaeth a Chelf fod yn Gymraeg.

7. Rhaid i'r cystadleuwyr ofalu am gopïau i'r beirniaid a'r cyfeilydd.

8. Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.

9. Ni fydd Neuadd yr Ysgol neu unrhyw aelod o Bwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled o unrhyw fath a all ddigwydd i unrhyw un sydd yn bresennol.

10. Bydd barn aelodau Pwyllgor yr Eisteddfod yn derfynol.

11. Ni fydd stondin bwyd yn yr Eisteddfod.

12. **Cystadleuaeth "Sgen ti Dalent?"** Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol; rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith; ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall yn yr Eisteddfod hon.

****

NODDWYR EISTEDDFOD 2023

Diolch i bawb sydd wedi rhoi cwpanau a tharianau her i'r Eisteddfod, a'r rhai sydd wedi rhoi gwobrau.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn hefyd i'r canlynol:

Raymond ac Yvonne Lewis, Pencader
Wendy Brooker, Llanfihangel-ar-arth
Gerald a Wendy Coles, Llantwit Fardre
Dr & Mrs John Edwards, Llanfihangel-ar-arth
Ann Phillips, Pencader
Len a Gwyneth Alban, New Inn
Linda Evans, Pencader
Val Davies, Pont-tyweli
Dafydd a Pauline Jones, Dolgran (Llywyddion)
Fioled Jones, Pencader
Elinor Flello, Llanfihangel-ar-arth
Dai a Hafina Lewis, Llanfihangel-ar-arth
Cyngor Bro Llanllwni
Cyngor Sir Gâr
Noddwr di-enw
Statkraft

Dangosir rhestr noddwyr 2024 yn rhaglen y flwyddyn nesaf.

DEDDF RHEOLI A DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Ar 25 Mai, 2018, daeth y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol y cyfeirir ati fel y GDPR i rym. Er mwyn cydymffurfio gyda'r ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol, mae'n ddyletswydd arnom ni i'ch sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, rhif ffôn, ebost) yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Os ydych yn dymuno i ni ddileu eich manylion o'n cofnodion a wnewch chi gysylltu â ni.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Margaret Bowen, Wernmacwydd, Llanfihangel-ar-arth, SA39 9LB
01559 362215
wernmacwydd@btinternet.com

neu

Anita Evans, Frongelli, New Inn, SA39 9AZ
01559 384266
anitaevans9@hotmail.co.uk

Cadair 2023 a wnaed gan Aneurin Thomas, Ffostrasol